



GWARANTAU CHWILIO: YMGYNGHORIAD

Y GYFRAITH GYFREDOL

Awdurdodiad ysgrifenedig yw gwarant chwilio sy'n caniatáu i ymchwiliwr gael mynediad i adeilad i chwilio am ddeunydd neu unigolion. Gan amlaf cyflwynir gwarantau chwilio gan gais i'r llys gan heddwes neu ymchwiliwr arall. Mae'r rhan fwyaf o warantau chwilio yn awdurdodi'r ymchwiliwr i atafaelu a chadw deunydd perthnasol a ganfyddir yn ystod y chwiliad.

Mae dros 150 o rymoedd statudol gwahanol i gyflwyno gwarantau chwilio. Defnyddir rhai, fel y grym cyffredinol dan adran 8 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ("DHTdD"), i edrych am dystiolaeth o drosedd. Mae rhai grymoedd mwy penodol yn caniatáu i'r ymchwiliwr atafaelu nwyddau wedi'u dwyn, cyffuriau, arfau neu ddeunyddiau peryglus eraill neu i achub pobl neu anifeiliaid mewn perygl neu drybini. Mae grymoedd eraill yn berthnasol i ymchwiliadau ariannol cymhleth neu arbenigol.

PROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH

Mae sylwadau a wnaed gan aelodau hŷn y farnwriaeth yn dangos bod y gyfraith sy'n llywodraethu gwarantau chwilio yn afraid o astrus, yn debygol o arwain at heriau ac angen ei diwygio. Mae gwarantau chwilio ymhlith y grymoedd mwyaf ymwithiol gall ymchwiliwyr eu gweithredu. Gall cost gwarant chwilio diffygiol fod yn sylweddol, gydag ymchwiliadau cyfan yn chwalu a'r potensial i gostio miliynau i gyrff cyhoeddus. Ers 2010, adroddwyd am dros 50 adolygiad barnwrol perthnasol i gyflwyno gwarant chwilio neu'r dull o gynnal y chwiliad.

Mewn ymateb i'r problemau hyn, gwahoddodd y Swyddfa Gartref Gomisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad i ddynodi a mynd i'r afael â phroblemau dybryd gyda'r gyfraith ac i gynhyrchu diwygiadau fydd yn egluro a rhesymoli'r gyfraith sy'n llywodraethu gwarantau chwilio.

Yn dilyn ymwneud trylwyr gydag academyddion, cyfreithwyr, barnwyr, sefydliadau'r llys, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, adrannau'r llywodraeth a grwpiau â diddordeb, rydym wedi dynodi nifer o broblemau gyda'r gyfraith, sydd yn dangos bod angen ei diwygio.

Cymhlethdod

Mae'r nifer helaeth o ddarpariaethau, ynghyd â'u natur astrus, yn arwain at dirwedd deddfwriaethol dryslyd. Mae hyn yn hidlo drwedd i bob cam o weithdrefn y gwarantau chwilio: mae yn risg y bydd camgymeriadau'n digwydd wrth wneud cais am warantau chwilio, bod cyflwyno gwarant chwilio yn ddim mwy nag ymarfer rhoi sêl bendith a na fydd preswylwyr yn deall maint grym y wladwriaeth a'u hawliau eu hunain. Effaith y materion hyn ar y cyd yw heriau niferus a gall ymchwiliadau chwalu.

Anghysondeb

Mae nifer o statudau sy'n darparu grymoedd gwarant chwilio. Mae gwahaniaethau ar draws y statudau hyn ynghylch pwy fedr wneud cais am warrant chwilio a chynnal chwiliad, dan ba amodau mae'n rhaid i'r cais a'r chwiliad gael eu gwneud. Er bod modd egluro rhai o'r gwahaniaethau hyn trwy natur wahanol ymchwiliadau, mae yna anghysonderau a bylchau posibl mewn galluedd ymchwilio. At hyn mae anghysonderau yn y weithdrefn o gael gwarant chwilio, yn addaster y dulliau diogelu statudol a'r amddiffynfeydd a roddir i gategoriâu penodol o ddeunydd. Mae hyn yn creu risg bod gan unigolion lai o amddiffynfeydd na ddylai fod ganddynt.

Wedi dyddio

Rydym yn byw mewn oes lle gellir storio deunydd o bell dros awdurdodaethau lluosog. Mae cyfran helaeth o'r darpariaethau sy'n llywodraethu gwarantau chwilio, yn benodol y rhai hynny a gynhwysir yn DHTd, yn eu lle ers cyn dyfodiad deunydd electronig ac yn methu delio gyda'r dechnoleg ddigidol a'r ffyrdd y mae gweithgareddau troseddol yn digwydd erbyn hyn.

Costus

Nid yw'r weithdrefn o gael gwarant chwilio yn gweithio'n effeithlon bob amser. Ymhellach, mae'r nifer o apeliadau a achosir gan ddeddfwriaeth gwarantau chwilio, a'r ffioedd cyfreithiol cysylltiedig, yn creu costau eithafol i bob parti.

EIN HARGYMHELLION

Rydym wedi ymgymryd ag adolygiad trwyadl o'r gyfraith gyfredol ac ymwneud ag ymarfer chwilio am ffeithiau ar raddfa fawr i ddynodi problemau dybryd. Rydym bellach wedi cyhoeddi Papur Ymgynghori (i'w gael ar-lein ar <https://www.lawcom.gov.uk/project/search-warrants/>) sy'n gofyn cyfres o gwestiynau ynghylch ein dewisiadau o argymhellion diwygio dros dro ac sy'n ceisio casglu tystiolaeth bellach i ffurfio ein hargymhellion terfynol.

Mae gwarantau chwilio yn ateb diben pwysig ac yn hanfodol i ymchwiliadau troseddol. Maent hefyd yn codi materion cyfansoddiadol pwysig ynghylch rheol y gyfraith a'r cydbwysedd cywir rhwng grymoedd y wladwriaeth a hawliau a rhyddid y dinesydd. Amcan canolog yr argymhellion yn ein Papur Ymgynghori yw cael cydbwysedd rhwng y diddordebau pwysig hyn. Rydym yn crynhoi ein hargymhellion fan hyn.

Symleiddio'r gyfraith

Rydym eisiau symleiddio'r gyfraith a'r weithdrefn trwy eu gwneud yn fwy rhesymegol a hygyrch ar bob cam o'r broses gwarant chwilio. Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein hargymhellion:

- egluro pryd mae dulliau diogelu statudol yn weithredol a phryd mae'n rhaid dilyn Cod B o DdHTd;
- egluro'r berthynas rhwng gwarantau chwilio a'r grym i chwilio adeilad yn dilyn restiad, fel bod ymchwilyr yn hyderus ynghylch pa rymoedd sydd fwyaf priodol;
- egluro ffurflenni a dogfennau canllaw a chorffori dyletswyddau cyfraith gyffredin mewn deddfwriaeth i sicrhau gwell cydymffurfiad gyda dyletswyddau cyfreithiol, yn benodol dyletswydd datgeliad llawn a didwyll gan y rhai hynny sy'n gwneud cais am warantau;
- egluro pryd dylid gwneud ceisiadau i farnwyr proffesiynol yn hytrach nag i ynadon llebyg; ac
- efallai effeithio ar gydgyfnerthiad ehangach o'r grymoedd gwahanol a chydgordio rhai darpariaethau i greu llyfr statud mwy hygyrch a rhesymegol.

Ein bwriad gyda'r argymhellion hyn yw sicrhau darparu dulliau diogelu digonol, lleihau'r cyfle ar gyfer camgymeriadau a gwneud i'r gyfraith weithredu'n fwy effeithlon.

Gwneud y gyfraith yn decach

Rydym eisiau gwneud y gyfraith yn decach trwy ehangu dulliau diogelu, trwy wella archwiliadau barnwrol a gwneud y gyfraith yn fwy tryloyw. Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein hargymhellion:

- i ehangu dulliau diogelu trwy ymestyn gweithredu dulliau diogelu statudol dan y DHTd a'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001; atgyfnerthu pwysigrwydd medru cael cyngor cyfreithiol; a chryfhau'r amddiffyniadau sydd ar gael i gategoriâu o ddeunyddiau wedi'u heithrio, gan gynnwys deunydd newyddiadurol cyfrinachol a chofnodion meddygol;

- i wella archwiliadau barnwrol trwy gyflwyno system ddsbarthu lle caiff ceisiadau eu sgrinio; gofyn bod ynadon yn cael hyfforddiant arbennig er mwyn cyflwyno gwarantau chwilio, cael cymorth gan gynghorwr cyfreithiol ac eistedd ar fainc o dda; a gofyn am awdurdodiad barnwrol ar gyfer chwiliadau hwyr yn y nos neu'n gynnar yn y bore; a
- i wneud y gyfraith yn fwy tryloyw trwy ofyniad bod yr awdurdod sy'n cyflwyno yn cofnodi faint o amser mae'n cymryd i ystyried cais; corffori'r ddyletswydd i roi rhesymau dros gyflwyno neu wrthod gwarant chwilio mewn statud; gofyniad bod preswylwyr yn cael mwy o wybodaeth er mwyn deall eu hawliau; a chyflwyno gofyniad i gofnodi a chyhoeddi ystadegau i fonitro'r defnydd o warantau chwilio.

Ar y cyd, mae'r argymhellion hyn yn ceisio sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu a bod chwiliad dan warant yn hanfodol a chymesur.

Moderneiddio'r gyfraith

Rydym eisiau moderneiddio'r gyfraith i sicrhau ei bod yn adlewyrchu natur newidiol yr ymchwiliadau ac yn medru delio gyda thechnoleg gyfredol. Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein hargymhellion:

- i ddarparu mwy o gysondeb ar draws darpariaethau gwarant chwilio mewn perthynas â phwy all wneud cais am warant, cynnal chwiliad a mynd gyda pherson yn ystod chwiliad; y cyfnod mae'r gwarant chwilio yn dal i fod yn ddilys; ac argaeledd gwarantau mynediad lluosog;
- i ffurfioli cofnodi gwybodaeth ychwanegol a roddir i'r awdurdod sy'n cyflwyno yn ystod cais am wrandawriad; y weithdrefn a ddefnyddir i ymdrin â cheisiadau y tu allan i oriau'r llys a'r defnydd o gyngor annibynnol; a
- i gyflwyno mecanweithiau newydd i atal hawliadau braint rhag cael eu defnyddio fel tacteg oedi, yn enwedig mewn ymchwiliadau mawr.

Mae'r argymhellion hyn yn ceisio sicrhau bod asiantaethau ymchwilio yn medru mynd i'r afael â natur esblygol trosedd tra'n cynnal dulliau diogelu cadarn ac effeithlon.

Gofynnwn hefyd cyfres o gwestiynau ymgynghori er mwyn casglu tystiolaeth i egluro cwmpas pwerau archwilwyr i chwilio ac atafaelu ar dystiolaeth electronig. Pwysleisiwn y pwysigrwydd o greu fframwaith statudol sydd yn adlewyrchu realiti a chymhlethdod yr oes digidol, sydd yn hwyluso archwiliadau i seiberdroseddau ac sydd yn amddiffyn hawliau unigol.

Gwneud y gyfraith yn gost-effeithiol

Rydym eisiau gwneud y gyfraith yn fwy cost-effeithiol trwy gyflwyno dull llyfn o gael gwarant chwilio a gweithdrefn newydd i herio a chywiro diffygion gweithdrefnol. Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein hargymhellion:

- i arbed amser ac adnoddau'r heddlu trwy wneud gweithdrefnau gwarant chwilio yn fwy effeithlon tra'n sicrhau bod ceisiadau'n cael eu sgrinio'n gywir i sicrhau nad ydynt yn ddiffygiol;
- i gyflwyno gweithdrefn newydd i herio gwarantau chwilio diffygiol, a fyddai'n osgoi cost ac oedi adolygiad barnwrol, a gweithdrefn newydd i atal braint rhag cael ei defnyddio fel tacteg oedi. Byddai'r ddwy weithdrefn hon yn caniatáu i ymchwilwyr adfer costau mewn enghreifftiau penodol.

Amcan y gweithdrefnau hyn, yn ogystal â symleiddio'r gyfraith, yw lleihau'r nifer uchel o adolygiadau barnwrol a'r gost gysylltiedig.

EICH YMATEB

Gwahoddwn farnau ar yr argymhellion o fewn ein Papur Ymgynghori yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus agored hwn. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 5 Mehefin 2018 a bydd yn rhedeg tan 5 Medi 2018. Unwaith mae'r ymgynghoriad wedi cau, byddwn yn dechrau hel ynghyd ein hargymhellion terfynol, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn.